COFNODION CYFARFOD CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD O BELL - DROS MICROSOFT TEAMS, DDYDD MERCHER, 13 MEDI 2024 AM 14:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | E L P Caparros | H Griffiths | G John |
| C Stallard | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies a B Stephens

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Joanna Hamilton | Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth |
| Dean Jones | Cyfrifydd - Ariannol |
| Chris Morris | Rheolwr Ariannol - Rheoli a Chwblhau Ariannol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Zak Shell | Clerc a Swyddog Technegol |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 50. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion 21/06/2024 fel gwir gofnod manwl gywir, yn amodol ar newid teitlau Dean Jones a Zak Shell gan fod eu swyddogaeth ar Gyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo yn wahanol i'w swyddogaeth ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Medi 2024 |

## 51. Gwobr Baner Werdd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Clerc a Swyddog Technegol adroddiad yn hysbysu'r Cyd-bwyllgor am gais llwyddiannus Amlosgfa Llangrallo i ennill Gwobr Baner Werdd yn 2024.<br><br>Derbyniodd Amlosgfa Llangrallo ei gwobr gyntaf yn 2010 a phob blwyddyn wedi hynny hyd heddiw.<br><br>Ar 22 Gorffennaf 2024 rhyddhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddatganiad i'r wasg yn dweud wrth y cyhoedd am lwyddiannau'r Wobr baner Werdd, ac mae copi ynghlwm fel Atodiad A.<br><br>Diolchodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth i'w staff unwaith eto am y gwaith caled a wnaed i sicrhau'r wobr unwaith yn rhagor, am y 15fed flwyddyn yn olynol.<br><br>Nododd Aelod nad oedd seremoni ar gyfer y wobr bellach a gofynnwyd pam.<br><br>Nododd y Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod hyn wedi stopio yn 2020 o ganlyniad i'r Pandemig ac nad yw wedi ail ddechrau wedyn. Roedd yn credu y gallai fod oherwydd rhesymau ariannol.<br><br>Mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r staff sydd wedi gweithio'n galed flwyddyn ar ôl blwyddyn hefyd, gan nodi ei fod yn gyflawniad rhagorol y gall pawb ym Mhen-y-bont ar Ogwr fod yn falch ohono. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyd-bwyllgor nodi'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Medi 2024 |

## 52. Arolwg Mewnol Amlosgfa Llangrallo

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cyd-bwyllgor ynghylch yr Arolwg Mewnol Amlosgfa Llangrallo diweddar mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023-24.<br><br>Eglurodd fod yr arolwg hwn wedi'i gynnal o ganlyniad i Gynllun Arolwg Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i bennu a darparu sicrwydd o effeithiolrwydd Amlosgfa Llangrallo o drefniadau rheoli, llywodraethu a rheoli risg mewnol. Yn ystod yr archwiliad, amlygwyd nifer o gryfderau a meysydd arferion da ar gyfer pob amcan o'r arolwg. Ni amlygwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolwg a ni nodwyd unrhyw argymhellion. O ganlyniad, nid oes cynllun gweithredu rheolaeth sy'n ymgorffori sylwadau a wnaed yn yr Adroddiad Arolwg Mewnol.<br><br>Roedd rhagor o fanylion yn adran 3 yr adroddiad ac roedd yr Arolwg llawn ynghlwm yn Atodiad A.<br><br>Gwnaeth y Cadeirydd sylw am y 'sicrwydd sylweddol' a gafwyd yn yr Arolwg. Roedd hyn yn gyflawniad gwych sy'n dangos gwaith caled yr holl staff.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyd-bwyllgor nodi'r Adroddiad Arolwg Mewnol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Medi 2024 |

## 53. Refeniw Datganiad Monitro 1 Ebrill tan 30 Mehefin 2024 a Diweddariad ar Ddatganiad Cyfrifyddu Blynyddol 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Y Cyfrifydd - Rheoli a Chwblhau Ariannol adroddiad oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Cyd-bwyllgor |

| | |
|---|---|
| | am incwm a gwariant chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2024-25 ynghyd â rhagamcanion o'r alldro terfynol ar gyfer 2024-25 ac i ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol 2023-24.<br><br>Darparodd fanylion o'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod Ebrill i Fehefin 2024, ynghyd â'r rhagamcanion o'r alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol. Amlygwyd hyn yn Nhabl 1 yr adroddiad.<br><br>Ychwanegodd fod tabl 2 y cynnig dadansoddiad o'r gyllideb cyllido cyfalaf ar gyfer 2024-25, ynghyd â'r gwariant ar gyfer y cyfnod Ebrill i Fehefin 2024 a rhagamcanion o'r alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol.<br><br>Eglurodd nad oedd angen y gwariant oedd wedi'i restru ar gyfer yr estyniad i'r cwrt blodau bellach, fodd bynnag, gan fod hyn wedi'i gwblhau yn y flwyddyn ariannol 2023-24.<br><br>Tynnodd y Cyfrifydd - Rheoli a Chwblhau Ariannol sylw'r Aelodau at Atodiad 1 oedd ynghlwm â'r adroddiad oedd yn rhoi manylion datganiadau Cyfrifyddu Amlosgfa Llangrallo ar gyfer y flwyddyn 2023-24.<br><br>Nododd y Cadeirydd mor braf ydoedd i weld Amlosgfa Llangrallo yn darparu gwasanaeth rhagorol gan ddangos rheolaeth ariannol gadarn flwyddyn ar ôl blwyddyn.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyd-bwyllgor nodi incwm a gwariant chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2024-25 ynghyd â rhagamcanion o'r alldro terfynol ar gyfer 2024-25, a'r safle mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol 2023-24. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Medi 2024 |

**54. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Medi 2024 |

Er mwyn gweld y drafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 14:22.